**Rhif:** WG30856.

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi Cymru 2017

Ymgynghoriad ar ddynodi Traeth Glan Don, Gwynedd yn ddŵr ymdrochi

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mawrth 2017

Mae'r ddogfen yma ar gael hefyd yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-14734-850103

Y Gangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: dwr@cymru.gsi.gov.uk
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

# Cyflwyniad

## Trosolwg

Mae dyfroedd ymdrochi'n werthfawr o ran y cyfleoedd hamdden maen nhw'n eu cynnig i bobl a thwristiaeth Cymru. Maen nhw hefyd yn arwydd cryf o iechyd cyffredinol arfordir a dyfroedd mewndirol Cymru.

Mae'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC) yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau nodi'r holl ddyfroedd ymdrochi poblogaidd bob blwyddyn a monitro ansawdd dŵr y safleoedd hyn drwy gydol y tymor ymdrochi. Yng Nghymru, mae'r tymor ymdrochi'n para o ganol mis Mai tan ddiwedd mis Medi. Ar hyn o bryd mae 103 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru.

Mae'r Gyfarwyddeb yn ceisio amddiffyn iechyd pobl drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau:

- dynodi dyfroedd ymdrochi poblogaidd
- monitro ansawdd eu dŵr
- rhoi gwybod i ymdrochwyr am ansawdd y dŵr
- a chyflawni ansawdd dŵr da ym mhob safle dynodedig dros amser

**Pwrpas yr Ymgynghoriad**

Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn am y cynnig i ddynodi Traeth Glan Don yng Nghymru yn ddŵr ymdrochi. Oddi wrth Gyngor Gwynedd t daeth y cais.

**Cyfnod ymgynghori a dosbarthiad yr ymgynghoriad**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 8 wythnos o 20 Rhagfyr 2016 gan ddod i ben ar 15 Chwefror 2017. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i anfon at ystod eang o randdeiliaid.

**Yr ymatebion**

Cafodd Llywodraeth Cymru chwe ymateb i'r ymgynghoriad ac mae'r ymatebwyr wedi'u rhestru yn Atodiad A y ddogfen hon. Gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru roi gwybodaeth hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori a daeth yr wybodaeth honno i law.

Roedd pob ymateb a gafwyd o blaid ein cynnig i ddynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2017.

Dywedodd yr ymatebwyr bod Traeth Glan Don yn cael ei ddefnyddio at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys ymdrochi a chwaraeon dŵr eraill. Roedd y gefnogaeth i ddynodi'r traeth hwn yn ddŵr ymdrochi'n dangos pwysigrwydd dŵr ymdrochi o ansawdd da o ran diogelu iechyd y cyhoedd a chyfraniad posib hynny at dwristiaeth ac economi Cymru. Dywedodd Cadw Cymru'n Daclus fod y Wobr Glan-môr wedi'i chyflwyno i'r traeth poblogaidd hwn ers 2012 ac enillodd y Wobr Arfordir Gwyrdd am y tro cyntaf yn 2016.

Barnwyd y byddai'r cynnig i ddynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi yn gyfraniad positif at yr amgylchedd morol. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn nofio'n rheolaidd yn y traeth a byddai cael gwybod ei fod wedi'i ddynodi'n ddŵr ymdrochi'n rhoi tawelwch meddwl i'r rheini sy'n defnyddio'r safle.

Cafwyd cydnabyddiaeth y byddai dynodi'r safle'n ddŵr ymdrochi'n rhoi fframwaith rheoleiddio ar gyfer monitro ansawdd y dŵr, ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth am ffynonellau llygredd posib ar gael i'r cyhoedd ei gweld ac ar gyfer gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Gofynnodd un ymatebydd am i bob rhan o arfordir Cymru sy'n cael ei defnyddio i ymdrochi ynddi gael ei dynodi'n ddŵr ymdrochi, a dywedodd fod y maen prawf "defnyddio" ar gyfer penderfynu a ddylid dynodi ai peidio yn rhy amwys. Mynegwyd pryderon bod llai o fonitro ar ddyfroedd ymdrochi sydd heb eu dynodi ac y gallai hynny arwain at beryglon i iechyd ymdrochwyr gan nad ydyn nhw'n dod o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi. Awgrymwyd hefyd y gallai ansawdd gwael y dŵr ar y safleoedd hyn gael effeithiau negyddol tymor hir ar ddyfroedd ymdrochi dynodedig gerllaw. Er y byddai hynny'n golygu mwy o waith monitro i Cyfoeth Naturiol Cymru, dadleuwyd y byddai ansawdd y dŵr o gwmpas arfordir Cymru'n gwella.

**Ymateb i'r sylwadau a ddaeth i law am ddynodi Traeth Glan Don fel dŵr ymdrochi.**

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion a gafwyd a'r holl wybodaeth a thystiolaeth a ddarparwyd, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon bod Traeth Glan Don wedi bodloni'r meini prawf a nodwyd yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi dynodedig o dymor ymdrochi 2017. Bydd Llywodraeth Cymru'n hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd am y penderfyniad.

Wrth benderfynu p'un ai i ddynodi dŵr ymdrochi ai peidio, y brif ystyriaeth yn ôl Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 yw nifer yr ymdrochwyr. Ond nid ydym wedi pennu nifer ffurfiol gan fod pob dŵr ymdrochi'n wahanol ac na fyddai un ffigur o reidrwydd yn addas ar gyfer pob safle. Rydym yn chwilio am dystiolaeth o nifer y nofwyr, y nifer sy'n padlo ar ymyl y dŵr a'r nifer sydd ar y traeth. Rydym yn edrych hefyd ar dueddiadau'r gorffennol, y seilwaith neu'r cyfleusterau a ddarperir neu'r mesurau a gymerir i hyrwyddo ymdrochi yn unol â Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013.

Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig sydd â'r cyfrifoldeb am fonitro ansawdd dŵr ymdrochi ar safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig. Caiff unrhyw un argymell dŵr arwyneb yr ymdrochir ynddo ar gyfer ei ddynodi'n dŵr ymdrochi. Yn y lle cyntaf, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â'r awdurdod lleol gan y bydd ganddo wybodaeth ddefnyddiol am draethau yn ei ardal a'r awdurdod fydd yn gyfrifol am ateb gofynion amrywiol Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 pe bai'r dŵr yn cael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi.

**Monitro dyfroedd ymdrochi dynodedig**

Lle bo dŵr wyneb yn cael ei nodi'n ddŵr ymdrochi, mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru greu proffil a rhaglen fonitro fanwl, fel y mae'n ei wneud ar gyfer pob un o'r dyfroedd ymdrochi yng Nghymru. Mae proffiliau dŵr ymdrochi'n rhoi disgrifiad o'r dŵr ymdrochi a'r ardal gyfagos, unrhyw afon a nant sy'n llifo i'r safle a manylion sut y byddant yn rheoli llygredd ar y safle. Mae'r proffil hefyd yn nodi'r canlyniadau o ran cydymffurfio ag ansawdd dŵr ymdrochi ac yn esbonio'r gwaith maen nhw'n ei gynnal gydag asiantaethau eraill i nodi lle bo angen gwella ansawdd y dŵr. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chwmnïau dŵr ac awdurdodau lleol i nodi problemau a allai effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi.

Yn ogystal, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol sy'n rheoli dŵr ymdrochi sicrhau bod gwybodaeth fanwl am y dŵr ymdrochi ar gael mewn man hawdd ei gyrraedd gerllaw'r dŵr ymdrochi yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai i 30 Medi).

O'r tymor ymdrochi yn 2017, bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n rheoli dŵr ymdrochi arddangos rhagor o wybodaeth ar ffurf symbolau categorïau ansawdd dŵr mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru.

**Dad-ddynodi dyfroedd ymdrochi**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddad-ddynodi dyfroedd ymdrochi yng Nghymru ar gyfer y tymor ymdrochi yn 2017.

**Camau Nesaf**

Byddwn yn rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru am benderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch dynodi Traeth Glan Don yn ddŵr ymdrochi ac yn gofyn iddynt baratoi proffil dŵr ymdrochi ar gyfer y dŵr ymdrochi hwn ac i'w adolygu o hyd.

Byddwn yn diwygio Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar 'Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi Cymru 2017'.

**Atodiad A**

**Rhestr o ymatebwyr**

Cadw Cymru'n Daclus
Cyngor Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion
David Hughes
Royal Yachting Association Cymru Wales
Y Gymdeithas Cadwraeth Môr